

Canllawiau'r GCC ar Sanctsiynau:

Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb

ac Aseiad o Effaith ar y Gymraeg

Cyhoeddwyd gan y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
i gefnogi cyhoeddiad
Canllawiau'r GCC ar Sanctsiynau

Mehefin 2026



Canllawiau'r GCC ar Sancsiynau – Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

Cam 1 – Cwmpasu'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

Caiff y term *polisi* ei ddehongli'n eang mewn deddfwriaeth cydraddoldeb ac mae'n cyfeirio at unrhyw beth sy'n disgrifio'r hyn rydym ni'n ei wneud a sut rydym ni'n disgwyl ei wneud. Gall amrywio o bolisiâu a gweithdrefnau wedi'u cyhoeddi i arferion ac ymarfer pob dydd – sydd heb ei ysgrifennu weithiau – sy'n cyfrannu at y ffordd y caiff ein polisiâu eu rhoi ar waith a sut caiff ein gwasanaethau eu cyflwyno.

Teitl y polisi neu'r gweithgaredd
Adolygiad Canllawiau'r GCC ar Sancsiynau
A yw'n bolisi/gweithgaredd presennol?
Disodliad polisi presennol
Beth yw'r prif bwrpas a beth yw canlyniadau arfaethedig y polisi/gweithgaredd?
- Bwriad y gwaith yw diweddarau'r egwyddorion y dylai paneli pwyllgorau ymarfer (paneli) eu hystyried wrth benderfynu ar y sancsiwn priodol, os o gwbl, mewn achosion ffitrwydd i ymarfer. Bwriedir iddo hefyd roi mwy o eglurder ar y polisi a sicrhau bod y cynnwys yn berthnasol ac yn gyfredol. Rydym yn adolygu ac yn diweddarau ein canllaw i sicrhau ei fod yn parhau yn berthnasol, yn gynhwysfawr, ac yn alinio â'r Cod Ymarfer Proffesiynol newydd. - Cyhoeddwyd y Canllawiau GCC ar Sancsiynau presennol ym mis Ebrill 2018 ac mae angen ei ddiweddarau i alinio â'r Cod Ymarfer Proffesiynol newydd (2026) a disgwyliadau diwygiedig y cyhoedd a GCC o'r proffesiwn. - Nododd ein gwaith paratoadol nad oedd y canllawiau presennol yn adlewyrchu cyfraith achosion diweddar. - Nid oedd y canllawiau presennol yn adlewyrchu fel ffactor gwaethgol: - difrifoldeb ymddygiad a allai fod yn gyfystyr â gwahaniaethu, aflonyddu, neu erledigaeth ar sail unrhyw nodwedd warchodedig—gan gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol - difrifoldeb camymddwyn rhywiol (ac eithrio yn achos penodol ymddygiad gyda'r bwriad o “gychwyn neu geisio perthynas rywiol”).

Pwy sydd fwyaf tebygol o elwa o'r polisi/gweithgaredd neu fod yn destun eu heffeithiau

Bwriedir i'r canllawiau gael eu defnyddio gan aelodau'r Pwyllgorau Iechyd ac Ymddygiad Proffesiynol wrth ystyried sancsiynau priodol i'w gosod.

Bydd yn effeithio'n uniongyrchol ar geiropactyddion

1. sydd wedi eu cael yn euog o ymddygiad sy'n is na'r safon sy'n ofynnol gan geiropactydd cofrestredig (a ddiffinnir fel "ymddygiad proffesiynol annerbyniol" ("UPC"))
2. sydd wedi eu cael yn euog o anghymhwysedd proffesiynol;
3. sydd wedi cael euogfarn (ar unrhyw adeg) yn y Deyrnas Unedig o drosedd;
4. y canfuwyd (gan y pwyllgor iechyd) bod eu gallu i ymarfer fel ceiropactydd wedi'i amharu'n ddifrifol oherwydd eu cyflwr corfforol neu feddyliol.

Bydd cleifion hefyd yn elwa o ganllawiau sancsiynau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor osod sancsiwn sy'n ddigonol i amddiffyn cleifion.

Gallai defnyddwyr eraill o'r canllawiau gynnwys:

- Cynrychiolwyr Cyfreithiol
- Cofrestreion a darpar gofrestreion
- Darparwyr addysg a hyfforddiant

Pwy sy'n gwneud yr asesiad?

Hannah Fellows, Cyfarwyddwr Ffitrwydd i Ymarfer

Andrew Fielding, Swyddog Polisi a Mewnwelediadau

Dyddiadau'r Asesiad

• Pryd y dechreuodd?	Ebrill 2026
• Pryd cafodd ei gwblhau?	Mehefin 2026
• Pryd dylid cynnal yr adolygiad nesaf o'r polisi/gweithgaredd?	Adolygiad pellach ar ôl ymgynghori ar ganllaw drafft.

Gwybodaeth Ddefnyddiol

Pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i asesu effaith y polisi/gweithgaredd ar gydraddoldeb?

Rydym angen barn wybodus am a yw'r canllaw arfaethedig yn rhoi rhanddeiliaid gyda nodweddion gwarchodedig dan anfantais annheg.

Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw ddata sy'n awgrymu y bydd pobl â nodweddion gwarchodedig penodol wedi'u heffeithio'n negyddol oherwydd y canllaw hwn.

Ar ôl gorffen, bydd effaith y canllaw hwn yn cael ei monitro dros amser.

A oes data sy'n gysylltiedig â phobl gydag unrhyw un/pob un o'r nodweddion gwarchodedig?¹

Cofrestreion

Mae'r gronfa ddata ceiropractyddion cofrestredig GCC wedi rhoi gwybodaeth i ni yn ymwneud â [dosbarthiad nodweddion gwarchodedig ein poblogaeth cofrestreion](#).

Rydym wedi ystyried (fel y bo'n briodol) ganfyddiadau'r [Agweddau tuag at arolwg CAC \(Haf 2023\)](#) a'r Arolwg Cofrestreion GCC ([prif adroddiad](#) ac [adroddiad CAC](#)).

Rydym wedi ystyried dau adroddiad mewnol - adolygiad thematig y Pwyllgor Ymchwilio o CAC a gynhaliwyd yn 2022, ac Adolygiad Thematig CAC y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol a gynhaliwyd yn 2024.

Canfu Adolygiad Thematig yr IC (2022) fod gwrywod, a chofrestreion 45-64 oed, wedi'u gorgynrychioli yn nifer y pryderon.

Wrth i'r broses FTP fynd yn ei blaen, mae'n dod yn anoddach nodi patrymau ystadegol yn gadarn mewn canlyniadau FTP oherwydd setiau data llai. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod ceiropractyddion sy'n destun sancsiwn gan y Pwyllgor Iechyd, yn ôl eu diffiniad, yn debygol o fod â chyflwr iechyd neu anabledd hirdymor.

Cleifion

Nid oes gennym ddata ar nodweddion gwarchodedig cleifion ceiropracteg, ond rydym wedi ystyried ystadegau Cyfrifiad y DU².

Nodwn fod tystion sy'n gleifion yn debygol o fod yn agored i niwed oherwydd amrywiaeth o resymau ond hefyd oherwydd natur y broses ac anghydbwysedd pŵer blaenorol rhwng cleifion a gweithwyr proffesiynol

Ble allwn ni gael y wybodaeth hon a phwy all helpu?

Cofrestreion

Yn ystod y broses ymgynghori ar y canllawiau byddwn yn ceisio barn ceiropractyddion sy'n byw gyda salwch neu anabledd hirdymor yn benodol.

Byddwn yn parhau i geisio adborth gan randdeiliaid allanol gan gynnwys cyrff proffesiynol, y RCC, rheoleiddwyr eraill a'r cynrychiolwyr cyfreithiol drwy ein cyfarfodydd sefydlog ac ar sail ad hoc lle bo angen.

¹ Y naw nodwedd gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Adran 14 y ddeddf hefyd yn nodi nodweddion gwarchodedig sy'n gorgyffwrdd fel rhai sy'n warchodedig. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i Gymru, Lloegr, a'r Alban yn unig.

Mae'r un nodweddion yn cael eu diogelu gan ddeddfwriaeth debyg yng Ngogledd Iwerddon (mae [Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998](#) yn ymdrin â chyrrff cyhoeddus, ond mae deddfwriaeth arall yn ymdrin â darparu nwyddau a gwasanaethau), Ynys Manaw ([Y Ddeddf Cydraddoldeb \(2017\)](#)) a Gibraltar ([Y Ddeddf Cydraddoldeb \(2006\)](#)). Yn ychwanegol mae'r ddeddfwriaeth yng Ngogledd Iwerddon yn adnabod Barn Wleidyddol a bod cael plant (neu beidio â chael plant) yn nodweddion gwarchodedig wrth ddelio â chyrrff cyhoeddus.

² Swyddfa Ystadegau Gwladol (Cymru a Lloegr), Cofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon.

Cleifion

Byddwn yn ceisio nodi dulliau priodol i ystyried ymhellach yr effaith ar gleifion – gan gynnwys drwy ymchwil eilaidd ac annog ymatebion cleifion a'r cyhoedd i'r ymgynghoriad.

Cam 2 – Tystiolaeth ac Ymgysylltiad

Os ydych wedi cynnwys rhanddeiliaid, disgrifiwch yn gryno'r hyn a wnaed, gyda phwy, pryd a ble. Rhowch grynoded byr o'r ymateb a gafwyd a dolenni i ddogfennau perthnasol, yn ogystal ag unrhyw gamau gweithredu.

Datblygwyd cynllun cyfathrebu i:

- greu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r canllaw sancsiynau ymhlith rhanddeiliaid
- rhannu a lledaenu gwybodaeth yn brydlon
- annog rhanddeiliaid i gynnig mewnbwn ystyrion yn y broses benderfynu
- creu syniadau newydd i gael eu hystyried a'u gwerthuso trwy gydol y broses.

Bydd y grwpiau rhanddeiliaid allanol a dargedir yn cynnwys:

- Cyrff proffesiynol
- Cofrestreion
- Grŵp cynghori o gofrestreion gyda phrofiad o fyw ag anabledd.
- Darparwyr addysg
- Cleifion a grwpiau budd cleifion
- Partneriaid GCC

Cam 3 – Dadansoddiad yn ôl nodwedd warchodedig

Bydd y Canllawiau wedi'u diweddarau ar Sancsiynau yn helpu i fynd i'r afael â gwahaniaethu a materion CAC ehangach drwy ei gwneud hi'n gliriach y gall ymddygiad hiliol, gwahaniaethol neu ragfarnllyd fel arall fod yn gyfystyr â chamymddygiad proffesiynol difrifol a bod yn rhaid ei ystyried yn benodol wrth asesu difrifoldeb, nam a'r sancsiwn priodol.

Dylai'r canllawiau gefnogi gwneud penderfyniadau mwy cyson drwy helpu paneli i gydnabod y niwed a achosir gan ymddygiad gwahaniaethol nid yn unig i gleifion unigol, cydweithwyr neu'r cyhoedd, ond hefyd i wella hyder yn y proffesiwn a'r broses reoleiddio.

Bydd y canllawiau'n atgyfnerthu'r angen i roi ystyriaeth briodol i gyd-destun a nodweddion gwarchodedig, fel bod penderfyniadau'n deg, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn rhydd rhag rhagfarn, gan egluro'n glir y gall ymddygiad gwahaniaethol ei hun fod yn nodwedd waethybol sy'n gofyn am ymateb rheoleiddiol cymesur.

Oedran

(gan gynnwys plant ac oedolion)

Cofrestreion

Mae peth dystiolaeth o adolygiad thematig yr IC bod cofrestreion hŷn yn fwy tebygol o fod yn destun pryderon FTP. Mae'n dilyn y gallent fod yn fwy tebygol o symud ymlaen trwy'r broses a derbyn sancsiwn.

Mae rheoleiddwyr iechyd eraill wedi nodi patrwm yn eu data FTP eu hunain o gofrestrreion hŷn yn bod yn fwy tebygol o dderbyn sancsiwn.

Mae'r canllawiau'n glir pryd y gellir ystyried "cam gyrfa ceiropactydd" fel ffactor lliniarol (er enghraifft pan oeddent yn ddibrofiad ond wedi hynny wedi gallu myfyrio ar sut y byddent yn gwneud pethau'n wahanol) a phryd y mae'n annhebygol y bydd cam yr yrfa yn cael ei ystyried yn ffactor lliniarol (er enghraifft ymddygiad rheibus).

Cleifion

Mae'n debygol y bydd cleifion yn cael eu heffeithio'n gadarnhaol gan y cynigion sydd wedi'u bwriadu i sicrhau cysondeb yn y broses sancsiynau.

Anabledd

(gan gynnwys pobl ag amhariadau gweledol ac anweledol a phobl ag anghenion mynediad gwahanol, er enghraifft oherwydd niwroamrywiaeth, amhariad ar y golwg neu'r clyw neu anghenion symudedd).

Er nad yw'n ystadegol gadarn oherwydd niferoedd bach, canfu Adolygiad Thematig y PCC (2024) fod gan geiropactyddion ag anableddau gyfran ychydig yn uwch o ganfyddiadau UPC (5 allan o 9 achos a adolygwyd) o'i gymharu â'r rhai heb anableddau (19 allan o 41 achos). Yn ogystal, mae ceiropactyddion sy'n derbyn sancsiwn gan y pwyllgor iechyd yn debygol, yn ôl y diffiniad, o fod ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor.

Yn y canllawiau diwygiedig, mae'r dull cam wrth gam o wneud penderfyniadau ar gyfer y Pwyllgor Iechyd yn ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i'r GCC brofi bod gallu'r ceiropactydd i ymarfer wedi'i amharu'n ddifrifol o ganlyniad i'w gyflwr – nid dim ond bod ganddo gyflwr.

Wrth adolygu amodau gorchmynion ymarfer ac ataliadau a osodwyd gan y Pwyllgor Iechyd, y ffocws eto yw ar allu'r ceiropactydd i ymarfer yn ddiogel, nid ar a oes ganddo gyflwr iechyd ai peidio.

Atgoffir y pwyllgor hefyd o effaith unrhyw gyflwr iechyd sefydledig ar fynegiant neu arddangosiad o edifeirwch y ceiropactydd. Mae'r canllawiau'n atgoffa'r pwyllgor bod ymwybyddiaeth a sensitifrwyd i'r materion hyn yn bwysig wrth ystyried ac asesu graddfa'r mewnwelediad neu'r edifeirwch a ddangosir.

Ailbennu rhywedd

(ystyried y gallai unigolion ar wahanol gamau o'r broses ailbennu fod ag anghenion gwahanol)

Mae ymchwil gan [TUC yn 2019](#) yn awgrymu bod pobl sydd yn draws neu'n anneauidd yn cael eu targedu'n anghymesur gan ymddygiad rhywiol amhriodol yn y gweithle.

Mae'r canllawiau'n amlygu bod camymddwyn rhywiol (ni waeth beth yw'r cymhelliant) yn amhriodol ac yn annerbyniol, a bydd yn cael ei ystyried yn ffactor gwaethybol wrth ystyried sancsiynau.

Gall y canllawiau gefnogi ceiropactyddion a chleifion trawsrywiol ac anneauidd drwy osod sancsiynau cryfach mewn achosion lle mae camymddwyn rhywiol yn ffactor.

Priodas a phartneriaethau sifil

(gan gynnwys perthnasoedd o'r un rhyw)

Mae'r canllawiau diwygiedig yn amlygu senario lle mae ceiropactydd dan ymchwiliad yn dewis peidio â gofyn am dystlythyrau na geir daon gan aelodau'r teulu (gan gynnwys

priod). Cynghorir y pwyllgor i beidio â dod i gasgliadau anffafriol os yw ceiropactydd wedi dewis peidio â chyflwyno geirada na thystlythyr.

Mae'r canllawiau'n atgoffa'r pwyllgor bod ymwybyddiaeth a sensitifrwydd i'r materion hyn yn bwysig wrth ystyried ac asesu graddfa'r mewnwelediad neu'r edifeirwch a ddangosir.

Beichiogrwydd a mamolaeth

(gan gynnwys pobl sy'n feichiog, sy'n disgwyl babi, hyd at 26 wythnos wedi genedigaeth neu sy'n bwydo ar y fron)

Nid yw'r GCC yn casglu data ar feichiogrwydd a mamolaeth, ac mae natur dros dro'r nodwedd warchodedig (ynghyd â'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r broses FTP) yn golygu bod amcangyfrif effaith feintiol beichiogrwydd a mamolaeth yn gymhleth.

Wrth ystyried gorchymyn amodau ymarfer, disgwylir i'r pwyllgor ystyried a fydd yr amodau arfaethedig yn ymarferol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os yw'r pwyllgor yn bwriadu gosod amodau yn seiliedig ar oruchwyliaeth yn y gweithle, hyfforddiant, neu ddysgu pellach. Gall y rhain fod yn anoddach i'w cyflawni os nad yw'r cofrestrai yn gweithio ar y pryd oherwydd absenoldeb mamolaeth (neu dadolaeth neu fabwysiadu).

Hil

(gan gynnwys cenedligrwydd, dinasyddiaeth, tarddiadau ethnig neu genedlaethol)

Canfu'r Adolygiad Thematis CAC o achosion PCC nad oedd unrhyw anghydraddoldeb sylweddol mewn canlyniadau yn seiliedig ar ethnigrwydd, er bod cryfder y canfyddiad hwn wedi'i gyfyngu gan y meintiau sampl bach.

Rydym wedi nodi y gall dealltwriaeth ddiwylliannol ceiropactyddion effeithio ar ddangos mewnwelediad, edifeirwch a didwylledd ymddiheuriad.

Mae'r canllawiau'n amlygu i'r pwyllgor bod astudiaethau cyfathrebu trawsddiwylliannol yn dangos bod gwahaniaethau sylweddol yn y ffordd y mae pobl o wahanol ddiwylliannau a grwpiau iaith yn defnyddio iaith a signalau di-eiriau i ddeall yr hyn sy'n cael ei ddweud ac i fynegi eu hunain. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd unigolion yn defnyddio ail iaith.

Mae'r canllawiau'n atgoffa'r pwyllgor bod ymwybyddiaeth a sensitifrwydd i'r materion hyn yn bwysig wrth ystyried ac asesu graddfa'r mewnwelediad neu'r edifeirwch a ddangosir.

Crefydd neu gred

(gan gynnwys credoau crefyddol neu athronyddol, gan gynnwys diffyg cred)

Canfu'r Adolygiad Thematig CAC o achosion PCC nad oedd unrhyw anghydraddoldeb sylweddol mewn canlyniadau yn seiliedig ar grefydd neu gred, er bod cryfder y canfyddiad hwn wedi'i gyfyngu gan y meintiau sampl bach.

Nid ydym wedi nodi unrhyw risgiau o effeithiau gwahaniaethol yn ymwneud â sancsiynau yn seiliedig ar grefydd neu gred.

Rhyw

(Dynion a menywod)

Er nad yw'n gadarn yn ystadegol, canfu'r Adolygiad Thematig CAC o 55 achos PCC fod gan geiropactyddion gwrywaidd debygolrwydd ychydig yn uwch o ganfod UPC o'u cymharu â cheiropactyddion benywaidd (49% yn erbyn 38%). At ei gilydd roedd 6 achos o UPC yn erbyn ceiropactyddion benywaidd a 19 yn erbyn ceiropactyddion gwrywaidd.

Mae ceiropactyddion benywaidd yn fwy tebygol o dderbyn gwaharddiadau dros dro (13% yn erbyn 5%) ac amodau ymarfer (13% yn erbyn 5%) pan ganfyddir UPC. Mae ceryddau a thynnu o'r swydd yn weddol gymharol rhwng y rhywiau. Ar y cyfan, er bod ceiropactyddion gwrywaidd yn wynebu cyfradd uwch o ganfyddiadau UPC, mae ceiropactyddion benywaidd yn tueddu i dderbyn sancsiynau mwy difrifol (gwaharddiadau ac amodau ymarfer) pan ganfyddir UPC. Mae'r gwahaniaeth mewn canlyniadau yn seiliedig ar ryw yn awgrymu rhywfaint o amrywiant, ond mae maint y sampl ar gyfer ceiropactyddion benywaidd yn rhy fach i ddod i gasgliad ystadegol gadarn.

Fel y nodwyd yn flaenorol (mamolaeth a beichiogrwydd), gall cyfrifoldebau gofalu effeithio'n anghymesur ar allu cofrestreion benywaidd i gwblhau goruchwyliaeth yn y gweithle neu hyfforddiant neu ddysgu fel rhan o orchymyn amodau ymarfer.

Gall y ddau ryw gyflawni, neu ddioddef, camymddwyn rhywiol. Mae'r canllaw yn cryfhau ac yn ehangu difrifoldeb camymddwyn rhywiol fel ffactor gwaethgol mewn achosion FTP ac yn cynghori bod y sancsiwn o ddifrifoldeb priodol.

Cyfeiriadedd rhywiol

(gan gynnwys heterorywiol, lesbiaidd, hoyw, deurywiol, cwiar a chyfeiriadeddau eraill)

Awgryma ymchwil o [TUC yn 2019](#) bod pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn cael eu targedu'n anghymesur gan ymddygiad rhywiol amhriodol yn y gweithle.

Mae'r canllaw yn cryfhau ac yn ehangu difrifoldeb camymddwyn rhywiol fel ffactor gwaethgol mewn achosion FTP ac yn cynghori bod y sancsiwn o ddifrifoldeb priodol.

A oes unrhyw oblygiadau mewn perthynas â phob un/unrhyw un o'r gwahanol ffurfiau ar wahaniaethu a ddiffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb?

Rydym yn rhagweld na fydd y canllawiau wedi cael unrhyw effaith andwyol ar bobl â nodweddion gwarchodedig, ac y bydd diogelwch a phroffesiynoldeb y proffesiwn ceiropacteg yn cael eu heffeithio'n gadarnhaol gan y canllawiau.

Cam 5 – Dadansoddiad o effaith ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Siaradwyr Cymraeg – deall yr effaith

Yn unol â dyletswyddau'r GCC o dan safon 42 [Safonau'r Gymraeg](#) ystyriwch yr effaith y byddai'r polisi'n ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ein cynigion polisi yw cynhyrchu canllawiau i gefnogi proses a gwneud penderfyniadau ein Pwyllgor PCC. Mae polisiâu eisoes ar waith i sicrhau bod cofrestreion a chleifion yn gallu ymgysylltu â'r broses Ffitrwydd i Ymarfer gan ddefnyddio'r Gymraeg.

Nid ydym yn credu y byddai'r canllawiau'n atal cleifion na cheiropactyddion rhag defnyddio'r Gymraeg, nac yn arwain at unrhyw driniaeth lai ffafriol o'r Gymraeg na'r Saesneg.

Siaradwyr Cymraeg – creu effeithiau cadarnhaol

Yn unol â dyletswyddau'r GCC o dan safon 43 [Safonau'r Gymraeg](#) ystyriwch sut y gellid llunio'r polisi fel y byddai'r penderfyniad yn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ni chredwn fod unrhyw gyfleoedd pellach i ffurfio'r canllaw mewn ffordd a fyddai'n cynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Siaradwyr Cymraeg – lleihau effeithiau andwyol

Yn unol â dyletswyddau'r GCC o dan safon 44 [Safonau'r Gymraeg](#) ystyriwch sut y gellid llunio'r polisi fel y byddai'r penderfyniad yn cael llai o effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ni chredwn fod unrhyw gyfleoedd pellach i ffurfio'r canllaw mewn ffordd a fyddai'n gostwng effeithiau negyddol ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cam 6 – Grwpiau eraill a nodir**Grŵp economaidd-gymdeithasol ac incwm**

Mae gwaith gan reoleiddwyr iechyd eraill wedi sefydlu mai un o'r prif ffactorau sy'n pennu canlyniadau FTP, a'r sancsiynau dilynol, yw a oes gan gofrestrai gynrychiolaeth gyfreithiol,

Rydym yn cydnabod y gallai fforddiadwyedd cynrychiolaeth gael ei waethygu i gofrestrai o gefndir economaidd-gymdeithasol is neu'r rhai ar incwm is – mae hyn yn golygu y gallent gael eu heffeithio'n anghymesur o ganlyniad i'r diffyg mynediad hwn. Gall yr effaith hon gael ei gwaethygu ymhellach gan groestoriadau â ffactorau eraill.

Rydym hefyd yn cydnabod y gallai fod costau neu golledion ariannol i geiroprectyddion sy'n destun unrhyw fath o sancsiwn. Fodd bynnag, disgwylir y bydd effaith y costau hyn bob amser yn cael ei gorbwyso gan y budd cyhoeddus ehangach.

Amrywiaeth pedair gwlad

Sut mae'r polisi'n rhyngweithio â fframweithiau cyfreithiol a diwylliannol y gwledydd lle mae gan y GCC fframwaith cyfreithiol?

Ni chredwn fod unrhyw faterion lle y mae disgwyliadau o fewn y canllaw yn gwrthdaro â fframweithiau cyfreithiol neu ddiwylliannol y gwledydd yr ydym yn gweithredu ynddynt.

Mae agweddau o'r canllaw hwn sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig hefyd yn amodol ar fframwaith cyfreithiol y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ac Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon (1998) ac eraill.

Cam 6 – Crynodeb o ddadansoddiad

Ni chredwn fod unrhyw effeithiau negyddol o'r canllaw arfaethedig ar y cam hwn, ond byddwn yn ceisio archwilio hyn yn ystod y broses ymgynghori.

Byddwn yn adolygu hyn unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau.

Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

Park House

186 Kennington Park Road

Llundain

SE11 4BT

Ff: +44 (0) 020 7713 5155

E: enquiries@gcc-uk.org

G: www.gcc-uk.org

Cyhoeddwyd gan GCC: Mehefin 2026.